# Y Pwyllgor Deisebau

**PET(3)01-07 (p1): 4 Gorffennaf 2007**

## Rôl y Pwyllgor a'i Ddull o Weithio

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gyffredinol i'r Pwyllgor am ei rôl a'i gyfrifoldebau ac yn amlygu materion y bydd Aelodau'r Pwyllgor am eu trafod, o bosibl, wrth gyflawni dyletswyddau'r Pwyllgor.

### Cefndir – Cylch Gwaith a Phwerau'r Pwyllgor

2. Roedd y ddau Gynulliad blaenorol yn derbyn ac yn cyhoeddi deisebau ond ychydig ohonynt ddaeth i law ac mae'n anodd cyfeirio at unrhyw ganlyniadau penodol a gododd ohonynt. Yn ôl y system ddeisebu newydd mae'n rhaid i'r Cynulliad ystyried deisebau priodol a thrwy'r Pwyllgor Deddfau, yn bennaf, y bydd yn gwneud hynny. 3. Mae Rheol Sefydlog 28 yn egluro'r broses ar gyfer ystyried deisebau ac mae'r manylion llawn i'w cael yn Atodiad A i'r papur hwn. Dyletswydd y Llywydd yw penderfynu ar ffurf briodol y deisebau a phenderfynu a ddylid eu derbyn; nid oes gan y Pwyllgor rôl ffurfiol yn y broses hon. 4. Caiff cylch gwaith y Pwyllgor ei amlinellu yn y penderfyniad i sefydlu'r Pwyllgor, sef "ystyried deisebau y bydd y Llywydd yn eu cyfeirio ato yn unol â Rheol Sefydlog 28.8". O dan y Rheol Sefydlog hon, rhaid i'r Llywydd gyfeirio unrhyw ddeiseb briodol at y pwyllgor Cynulliad perthnasol. Caiff y Llywydd gyfeirio deisebau at unrhyw bwyllgor, ond rhagdybir y cânt eu cyfeirio at y Pwyllgor Deisebau'n gyntaf. 5. Bydd angen i'r Pwyllgor roi gwybod i'r deisebydd am unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd o dan Reol Sefydlog 28.9. Dyma rai o'r camau y gall y Pwyllgor eu cymryd:

cyfeirio'r ddeiseb at y llywodraeth, unrhyw un arall o bwyllgorau 'r Cynulliad neu unrhyw berson neu gorff iddynt hwythau gymryd unrhyw gamau y credant eu bod yn briodol;
cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad; neu
cymryd unrhyw gamau eraill y mae'r Pwyllgor yn credu eu bod yn briodol.

6. Rhaid i'r Pwyllgor ymgymryd â'r un dyletswyddau cyffredinol a chadw at yr un gofynion sy'n gymwys i Bwyllgor eraill y Cynulliad fel y nodir yn Rheol Sefydlog 10. Efallai y dylid nodi bod Rheol Sefydlog 10.45 yn rhoi'r awdurdod i'r Pwyllgor ymarfer y pwerau yn adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol yn eu trafodion neu ddangos dogfennau.

### Dull o Weithio

### Cyfarfodydd a Llwyth Gwaith

7. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar ddull newydd o drefnu cyfarfodydd y Pwyllgorau yn ystod y trydydd Cynulliad. Yn hytrach na pharatoi amserlen fanwl ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau, lle'r oedd angen i'r Pwyllgor roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes os nad oeddynt am gadw at yr amserlen honno, bydd y Pwyllgor Busnes yn cynnig amseroedd penodol a fydd 'ar gael' bob wythnos ar gyfer cyfarfodydd pob Pwyllgor. 8. Dylai hyn sicrhau bod y Pwyllgorau'n gallu cyfarfod mor aml ag sydd ei angen heb i'r rhaglenni gwaith gael eu rheoli gan yr angen i 'lenwi' 3 awr o amser Pwyllgora bob 2 i 3 wythnos. Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn bwriadu treialu system a fyddai'n caniatáu i Bwyllgorau gyfarfod yn ystod y cyfarfod llawn. Yn dilyn y newidiadau hyn, dylai'r Pwyllgorau fedru cynllunio'u gwaith mewn ffordd llawer mwy hyblyg nag o'r blaen. 9. Bydd nifer y cyfarfodydd yn dibynnu ar nifer y deisebau sy'n dod i law. Gall y pwyslais newydd ar ddeisebau, yn enwedig os byddant yn arwain at weithredu pendant neu newidiadau polisi, olygu y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y Deisebau sy'n dod i law ac, o ganlyniad i hynny, cynnydd yn llwyth gwaith y Pwyllgor. 10. Hyd nes y bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gwybod beth fydd llwyth gwaith rheolaidd y Pwyllgor, efallai y byddant am ystyried cyfarfod bob pythefnos ar ôl toriad yr haf. Mae'n bosibl ailedrych ar y sefyllfa os bydd gofynion y llwyth gwaith yn galw am gyfarfod yn amlach neu os daw llai o ddeisebau i law na'r disgwyl.

### Delio â Deisebau a gaiff eu Cyfeirio at y Pwyllgor

11. Efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor am ystyried yn fuan sut y bydd y Pwyllgor yn delio'n gyffredinol â'r deisebau sy'n dod i law. Mae'r camau y gall y Pwyllgor eu cymryd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 4 uchod. Mae'r rhain yn rhoi cryn ryddid i'r Pwyllgor gasglu rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar (gan ddeisebwyr ac eraill), craffu ar benderfyniadau a gwneud argymhellion, i'r Cynulliad a chyrff ac unigolion eraill. 12. Efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor am ystyried a ydynt am i Glerc y Pwyllgor ddarparu gwybodaeth gefndir ychwanegol i gyd-fynd â phob deiseb, ac os felly, faint o wybodaeth fydd ei hangen arnynt. Er enghraifft, efallai yr hoffai'r Pwyllgor weld ymateb Llywodraeth y Cynulliad neu unrhyw gorff cyfrifol arall, cefndir ychwanegol gan y deisebydd neu wybodaeth am unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag amseru. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried i ba raddau y mae'r deisebwyr wedi ceisio datrys y broblem mewn ffyrdd eraill cyn deisebu'r Cynulliad. Neu, efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor am drafod y deisebau cyn gynted â phosibl er mwyn iddynt fedru trafod y camau cychwynnol eu hunain. 13. Efallai y bydd Aelodau'r Pwyllgor am ystyried i ba raddau y maent am roi cyfle i ddeisebwyr ymddangos gerbron y Pwyllgor. Ar un lefel, mae'n bosibl y bydd rhagdybiaeth gyffredinol y caiff pob deisebydd 15 munud, er enghraifft, i gyflwyno'u hachos yn bersonol gerbron y Pwyllgor. Byddai hyn, mae'n debyg, yn ddull poblogaidd a chynhwysol o weithio ac, wrth i ymwybyddiaeth gynyddu ymhlith y cyhoedd, gallai ysgogi cryn ddiddordeb yn system ddeisebu'r Cynulliad. Neu, gallai'r Pwyllgor gynnig i ddeisebwyr roi cyflwyniad dim ond pan fyddai'n fodlon ei fod wedi cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen i roi ystyriaeth briodol i'r ddeiseb neu pan fyddai'n fodlon fod y ddeiseb yn bodloni meini prawf penodol yr oedd wedi'u gosod. Yn y naill achos neu'r llall, dylai'r Pwyllgor gofio y bydd rhai deisebwyr yn fwy cymwys i egluro'u hachos ar lafar nag eraill.

### Rôl y Llywydd

14. Fel y soniwyd eisoes, nid yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i ystyried ffurf a phriodoldeb deisebau. Y Llywydd sydd i ystyried y materion hyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Maes ansicr arall yw penderfynu i ba raddau y dylai'r Pwyllgor, yn hytrach na'r Llywydd, fod yn gyfrifol am "farchnata" y system ddeisebu. Er hyn, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a yw'n dymuno rhoi cyngor i'r Llywydd ynghylch sut y gellid hyrwyddo'r system ddeisebu ac ynghylch ei rôl o ran penderfynu ar ffurf a phriodoldeb y deisebau a ddaw i law.
15. Dylid nodi bod y Llywydd wedi lansio ymgynghoriad agored ynghylch deisebau. Mae telerau'r ymgynghoriad, nad oes unrhyw ddyddiad cau penodol ar ei gyfer, i'w gweld yn Atodiad B i'r papur hwn. Efallai y bydd y Pwyllgor am ymateb yn ffurfiol i'r Llywydd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

### Gwybodaeth ychwanegol

16. Deallwn fod trefniadau deisebu Senedd yr Alban wedi dylanwadu ar y Pwyllgor Rheolau Sefydlog wrth iddynt sefydlu'r system ddeisebu hon. Mae'r trefniadau yn y Cynulliad ychydig yn wahanol ond mae trefniadau Senedd yr Alban yn ddigon tebyg i roi cefndir defnyddiol i waith y Pwyllgor. Wrth iddynt drafod rhai o'r materion yn y papur hwn, gallai profiad yr Alban fod yn ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor. Mae rhagor o wybodaeth gefndir i'w chael drwy ddilyn yr hyperlincs a ganlyn:

Scottish Parliament - Petitions Committee
Scottish Parliament – Petitions Guidance

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

17. Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn ac ystyried y pwyntiau a ganlyn yn benodol:

Pa mor aml ddylai'r Pwyllgor gyfarfod yn syth ar ôl toriad yr haf;
Pa wybodaeth gefndir ychwanegol fyddent am ei chael wrth roi ystyriaeth gychwynnol i'r deisebau;
Pryd y dylid gwahodd deisebwyr i roi tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor, ac a ddylid gwneud hynny'n gyffredinol;
Ar ôl cael cyfle i drafod y mater yn llawnach, a ddylai'r Pwyllgor roi cyngor i'r Llywydd ynghylch ei gyfrifoldebau o ran penderfynu ar ffurf a phriodoldeb deisebau;
A ddylai ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Llywydd ynghylch sut y dylid hyrwyddo'r system ddeisebu.

### Y Camau Nesaf

18. Ar ôl y drafodaeth, bydd y Clerc yn paratoi rhagor o gyngor a chanllawiau ynghylch sut y dylai'r Pwyllgor ymgymryd â'i waith, a chaiff y rhain eu trafod yn y cyfarfod nesaf. Os yw'r Pwyllgor am ymateb i ymgynghoriad y Llywydd, bydd y Clerc yn drafftio ymateb i'r Cadeirydd ei anfon. Bydd tîm y Clerc yn gweithredu unrhyw benderfyniadau sy'n galw am gymryd camau gweinyddol yn unig, gan wneud hynny cyn gynted â phosibl. **Steve George**
**Clerc y Pwyllgor Mehefin 2007**

## ANNEX A

### STANDING ORDER 28 - Public Petitions

28.1 The Assembly must consider, in accordance with the provisions of Standing Orders 28.2 to 28.12, any admissible petition. 28.2 A petition must clearly indicate: (i) the name of the petitioner, who may be an individual person (other than a Member), a body corporate or an unincorporated association of persons; (ii) an address of the petitioner to which all communications concerning the petition should be sent; and (iii) the names and addresses of any person supporting the petition. 28.3 The Presiding Officer must determine the proper form of petitions and must publish his or her determinations. **Admissibility of Petitions** 28.4 A petition is not admissible if it: (i) contains fewer than 10 signatures; (ii) fails to comply with Standing Order 28.2 or is otherwise not in proper form; (iii) contains language which is offensive; (iv) requests the Assembly to do anything which the Assembly clearly has no power to do; or (v) is the same as, or in substantially similar terms to, a petition which was: (a) presented by or on behalf of the same person, body corporate or unincorporated association during the same Assembly; and (b) closed less than a year earlier. 28.5 Standing Order 28.4(i) does not apply if the petitioner is a body corporate or an unincorporated association of persons. 28.6 The Presiding Officer must consider and decide in a case of dispute whether a petition is admissible and must notify the petitioner, as soon as is reasonably practicable, of his or her decision and the reasons for it. 28.7 The Presiding Officer must publish a register of decisions made under Standing Order 28.6. **Action on a Petition** 28.8 If a petition is admissible, the Presiding Officer must refer that petition to the relevant Assembly committee ("the committee"). 28.9 The committee may: (i) refer the petition to the government, any other committee of the Assembly or any other person or body for them to take such action as they consider appropriate; (ii) report to the Assembly; or (iii) take any other action which the committee considers appropriate. 28.10 The committee must notify the petitioner of any action taken under Standing Order 28.9. **Closing Petitions** 28.11 The committee may close a petition at any time. 28.12 When the committee closes a petition, it must notify the petitioner that the petition is closed and of the reasons for closing it.

## ANN"EX B"

## Pet"itions"

## "Message from Lord Dafydd Elis Thomas, the Presiding Officer: "

The National Assembly is introducing a new petitions system. For the first time, members of the public will not only be able to petition the National Assembly and ask for action to be taken in those areas of policy for which the Assembly is responsible, but the Assembly will be required to act on the petition, if it is within the powers of the Assembly. I am launching an open consultation to invite you to give your ideas about how we can make this new system work best. We want it to be:

open
responsive
effective and efficient

There is no age limit on who can submit petitions - but the policy area must be within the responsibilities of the National Assembly. We will respond promptly to your petitions - we will tell you quickly if they are within the scope of the Assembly, and what will happen to them, including the committee they will be directed to. We would like to hear what you think. For example:

how would you like to submit your petitions; by hand, by post, by email, by fax, text messaging?
what information and advice would you need to submit a petition?
would you wish to have a dedicated member of staff in the Assembly to keep you in touch with the petition's progress?

If you find the idea of petitioning the Assembly as exciting as I do, tell me how we should proceed. Send your ideas to me at **petition@wales.gsi.gov.uk**